CYNGOR CYMUNED RHOSCOLYN

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00yh. Nos lau, 13 Awst 2026.

Yn bresennol: Cadeirydd: Cyng. Susan Hanbury.
Cynghorwyr: Geraint Owen, Barry Thomas a Tony Thompson.
Hefyd yn bresennol: Mai Owen – Clerc / SAC a'r Cynghorwyr Sir - Celfyn Furlong a Dafydd Rhys Thomas.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Wyn Robertson a Keith Roberts - y Cynghorwr Sir

2. **Datganiad o Ddiddordeb:** – Cyng. S Hanbury yn datgan diddordeb personol yn y cais am arian gan Gylch Meithrin, Ysgol Rhoscolyn.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** derbyniwyd cofnodion 9 Gorffennaf 2026 fel rhai cywir (cynnig Cyng. G. Owen, eilio Cyng. B. Thomas).

4. **Materion yn codi o'r cofnodion –** dim.

5. **Materion Cynllunio**

5.1 HHP/2026/115 **/** LBC 2026/18 Ty Rallt, Pont Rhydbont
Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer adnewyddu a gwella adeilad rhestredig Gradd II deulawr presennol a stabl unllawr cyfagos ynghyd ag estyniad i'r gegin unllawr gefn bresennol – dim gwrthwynebiad.

5.2 LUE 2026/13 To Gwyrdd, Pontrhydybont.
Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon i gadarnhau bod y gwaith wedi'i wneud yn gyfreithlon yn unol â chaniatâd cynllunio rhif 43C32F/DEL ar dir gyferbyn – dim gwrthwynebiad.

5.3 FPL/2025/287 - Refail Farm Estate, Pontrhydybont - cwyn fod gwaith wedi ei wneud ar y safle er nad oedd y cais cynllunio yn llwyddianus – roedd Swyddogion Gorfodi Cynllunio wedi ymweld â'r safle.

6. **Gohebiaeth – wedi'i gyflwyno a'i nodi:**

6.1 Pwyllgor Ardal Ynys Môn 28.7.2026
6.2 Cais am Container i Gylch Meithrin Rhoscolyn - roedd angen mwy o wybodaeth am hwn.
6.3 Balchder yn Eich Cymuned – cafwyd cadarnhad fod y cais am grant o £9081.24 ar gyfer gardd gymunedol, lloches fws a defibriliwr wedi ei dderbyn. Cytunwyd i archebu 4 mainc a 3 planter gan Earth Anchors yn y lle cyntaf.
6.4 Pwyllgor Safonau 18/06 2026 - Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwriadu ymweld â/ arsylwi nifer o Gynghorau Tref a Chymuned er mwyn gweld sut mae'r Cod Ymddygiad yn cael ei roi ar waith.
6.5 Fforwm cynghorau tref a chymuned - cofnodion a dyddiad y cyfarfod nesaf - nos

Fercher, 30 Medi am 6.30 yh.

7. Materion Ariannol

Cyflwynwyd: yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod o 1.4.2026 i 31.7.2026 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon. Roedd y gwariant hyd yma o fewn y gyllideb heblaw am fil yr archwilwyr allanol, roedd hwn yn dipyn mwy na'r disgwyl. Byddai'r Clerc yn parhau i fonitro'r gwariant yn ofalus yn enwedig gan fod rhaid talu am waith prosiect Balchder yn Eich Cymuned gyda THAW cyn cael ad-daliad gan Gyngor Sir Ynys Môn.

7.1 Taliadau I'w gwneud:

Torri llwybrau	£175		

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc /SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

8. Adroddiad Blynyddol – cytuno i dderbyn yr adroddiad a baratowyd gan y clerc.

9. Adroddiadau Cynghorwyr

9.1 Cyng. Susan Hanbury
Roedd angen gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn roi sylw i'r gordyfiant rhwng Capel Rhoscolyn a'r bont.

10. Cyfarfod nesaf 24 Medi 2026.

RHOSCOLYN COMMUNITY COUNCIL

Council Meeting Minutes - 7.00pm. Thursday, 13 August 2026

Present: Chairman: Cllr. Susan Hanbury.
Councillors: Geraint Owen, Barry Thomas and Tony Thompson.
Also present: Mai Owen – Clerk / RFO and County Councillors Celfyn Furlong and Dafydd Rhys Thomas.

1. Apologies: Cllr. William Roberts, Evan Wyn Robertson and County Councillor Keith Roberts.

2. Declaration of Interest: – Cllr. S Hanbury expressed a personal interest in the

application for funding from Rhoscolyn School.

3. **Minutes of previous meeting:** the minutes of 9 July 2026 were accepted as correct (prop. Cllr. G. Owen, sec. Cllr. B. Thomas).

4. **Matters arising from the minutes -** none

5. **Planning Matters**

5.1 HHP/2026/115 **/** LBC 2026/18 Ty Rallt, Pont Rhydbont
Listed Building Consent for refurbishments and improvements to an existing two-storey Grade II listed building and adjacent single storey stable together with extension to the existing rear single storey kitchen – no objections.

5.2 LUE 2026/13 To Gwyrdd, Pont-Rhyd-Y-Bont
Application for a Certificate of Lawfulness to confirm that a material operation was lawfully undertaken in accordance with planning permission reference 43C32F/DEL on land adjacent land. – no objections.

5.3 FPL/2025/287 - Refail Farm Estate, Pontrhydybont - complaint that work had been carried out on the site despite the planning application being refused. -
Planning Enforcement Officers had been alerted.

6. **Correspondence – submitted and noted:**

6.1 Ynys Mon Area Committee 28.7.2026

6.2 Request for a Container from Cylch Meithrin Rhoscolyn - More information was needed on this.

6.3 Pride in Your Community - It was confirmed that the application for a grant of £9081.24 for a community garden, bus shelter and defibrillator had been accepted. It was agreed to order 4 benches and 3 planters from Earth Anchors in the first instance.

6.4 Standards Committee 18/06/2026 – The Standards Committee were planning to visit/observe a number of Town and/or Community Councils to observe the practical application of the Code of Conduct in operation.

6.5 Town and community councils forum - minutes and date of next meeting –
Wednesday 30 September at 6.30 pm.

7. **Financial Matters**

Submitted: The RFO's financial report for the period 1.4.2026 to 31.7.2026 together with bank reconciliations, statements and copies of the accounts. The expenditure to date was within budget except for the external auditors' bill, this was quite a bit more than expected. The Clerk would continue to monitor the expenditure carefully especially as the Pride in Your Community project work has to be paid for with VAT prior to receiving a refund from Anglesey County Council.

7.1 **Payments to be made:**

Footpath Maintenance.	£175	

It was also agreed that the Clerk / RFO would pay any invoices received in respect of previously agreed expenditure.

8 Annual Report – agreed to accept the report presented by the clerc.

9. Councillor Reports

9.1 Cyng. Susan Hanbury
Asked that a request be sent to the Isle of Anglesey County Council to address the overgrowth between Capel Rhoscolyn and the bridge.

10. Next Meeting: 24 September 2026.